Darnau rhydd

Trosolwg

Mae darnau rhydd yn cynnig posibiliadau diri ar gyfer chwarae. Gellir eu defnyddio i adeiladu, chwarae â dŵr, a mwy. Mae byd natur yn cynnig amrywiaeth enfawr o ddar nau rhydd sy'n tanio chwilfrydedd drwy gydol y flwyddyn.



Trefnu

Dewch o hyd i ardal lle gall y plant gael gafael ar y deunyddiau'n hawdd a'u cludo i'w man chwarae. Casglwch amrywiaeth o eitemau sydd wedi'u gwneud o wahanol ddeunyddiau, a fydd yn tanio chwilfrydedd ac yn deffro pob un o'r pum synnwyr wrth i'ch plant chwarae.Sicrhewch fod yna ddigon o le i'r plant gludo eitemau sy'n fwy o faint. Gallai darnau rhydd gael eu storio:

- Mewn tybiau mawr, e.e. tybiau hyblyg
- Mewn sied fach
- Mewn blychau â chaeadon.

Offer

- Darnau mawr – blociau pren, estyll pren, darnau o foncyffion, cratiau, teiars, bwcedi, pibellau, cafnau bargod
- Deunyddiau adeiladu cuddfan – tarpolins, pegiau, rhwymau bynji â phelen
- Darnau bach – moch coed, concyrs

Rhyngweithio allweddol

Arsylwch sut y mae'r plant yn chwarae, a gwnewch sylwadau ar yr hyn y maent yn ei wneud.

"Mae dy dŵr di'n dalach na thi!"

Gofynnwch gwestiynau i hybu sgiliau datrys problemau.

"Tybed sut gallet ti wneud yr estyllen yn gytbwys?"

Deilliannau dysgu

- Chwarae actif – dewis adnoddau, gwneud newidiadau, datrys problemau
- Archwilio corfforol a synhwyraidd
- Datblygu sgiliau meddwl yn greadigol ac yn feirniadol
- Datblygu sgiliau cyfathrebu

Symud y dysgu yn ei flaen:

Ychwanegu eitemau gwahanol o bryd i'w gilydd ar sail diddordebau'r plant

Defnyddio'r tymhorau a'r tywydd, e.e. creu cwch yn y glaw

Defnyddio darnau rhydd wrth ganu hwiangerddi, e.e. adeiladu wal ar gyfer 'Adeiladu tŷ bach', neu wrth ddarllen straeon, e.e. creu llwybr ar gyfer ''Dyn ni yn mynd i hela arth'